# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-12-07)

**SLC67**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.**
**Teitl: Rheoliadau Dwr Mwynol Naturiol, Dwr Ffynnon a Dwr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007**

M

ae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Dwr Mwynol Naturiol, Dwr Ffynnon a Dwr Yfed wedi'i Botelu 1999 (O.S. 1999/1540) (fel y'i diwygiwyd), sy'n rhychwantu Prydain Fawr gyfan, i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru, ac maent yn ailddeddfu'r Rheoliadau hynny gyda newidiadau o ran Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu, i'r graddau a bennir ym mharagraff 3 y Nodyn Esboniadol i'r Rheoliadau, yr offerynnau Cymunedol a bennir yn y paragraff hwnnw. **Gweithdrefn: Negyddol** 1.Ym mharagraff (b) y diffiniad o "ddwr yfed" yn rheoliad 2(1), mae'r testun Cymraeg yn darparu ar gyfer labelu yn Saesneg neu yn Gymraeg, tra bod y testun Saesneg yn darparu ar gyfer labelu yn Saesneg yn unig. Mae anghysondebau tebyg yn digwydd yn rheoliadau 8, 9, 10, 11, 12, 14. Gan fod rheoliad 20 yn creu tramgwyddau mewn perthynas â'r rheoliadau hyn, bydd y defnydd o'r termau Cymraeg penodol heb y rhai Saesneg cyfatebol yn dramgwydd yn ôl y testun Saesneg, ond nid yn ôl y testun Cymraeg. Mae'n hanfodol bod yr anghysondeb yn cael ei gywiro cyn gynted â phosibl. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)] 2.Mae testun Saesneg rheoliad 5(2) yn gorffen gyda "until … would comply with those paragraphs", tra bod y testun Cymraeg yn defnyddio "hyd nes … y gallai … gydymffurfio â'r paragraffau hynny" ["until …could comply with those paragraphs]". Dylai'r Saesneg ddweud "could" neu dylai'r Gymraeg ddweud "y byddai yn cydymffurfio". [Rheol Sefydlog 15.2(vii)] Mae'r Llywodraeth wedi gwneud sylw ei bod yn derbyn y pwyntiau a nodwyd i fod yn destun adroddiad, ac y bydd diwygiadau yn cael eu gwneud i ddiwygio'r Rheoliadau ar y cyfle cyntaf. Mae'r Llywodraeth wedi gwneud sylw ei bod yn derbyn y pwyntiau a nodwyd i fod yn destun adroddiad, ac y bydd diwygiadau yn cael eu gwneud i ddiwygio'r Rheoliadau ar y cyfle cyntaf.

**Janet Ryder AC**

Cadeirydd Dros Dro, Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**27 Tachwedd 2007**